

---

## Canllawiau labelu manylion y potelwr

---

Adolygwyd y canllawiau ym mis Ebrill  
2016

### Fformatau eraill

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat arall, fel sain, print bras neu Braille, ffoniwch Linell Gymorth yr ASB ar 020 7276 8829 neu e-bostiwch [helpline@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:helpline@foodstandards.gsi.gov.uk)

Os oes gennych ymholiadau technegol ynghylch y canllawiau hyn, cysylltwch â'ch Arolygydd Gwin Rhanbarthol. Cewch hyd i'r manylion cyswllt yn <http://www.food.gov.uk/business-industry/winestandards/contactinspectors>

### Paratowyd y canllawiau gan

Graham Finch

Arolygydd Technegol Safonau Gwin

Rhif ffôn: 01732 824661

E-bost: [winestandards@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:winestandards@foodstandards.gsi.gov.uk)

## Crynodeb

<b>Cynulleidfa darged:</b>	Potelwyr cynnyrch y sector gwin
<b>Pa rai o wledydd y DU y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol iddynt?</b>	Pob un o wledydd y DU
<b>Pwrpas:</b>	Canllawiau ynghylch y gofyniad i roi manylion y potelwr ar labeli gwin
<b>Statws cyfreithiol:</b>	Paratowyd y canllawiau hyn i egluro gofynion cyfreithiol Rheoliad 607/2009 y Comisiwn.
<b>Geiriau allweddol:</b>	Gwin, potelwr, mewnoforiwr
<b>Dyddiad adolygu:</b>	Ebrill 2018

## HANES DIWYGIO

Mae'r canllawiau hyn yn dilyn [Cod Ymarfer y Llywodraeth ar Ganllawiau](#). Os ydych yn credu bod y canllawiau hyn yn mynd yn groes i ofynion y Cod am unrhyw reswm, rhowch wybod i ni drwy e-bostio [betterregulation@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:betterregulation@foodstandards.gsi.gov.uk).

<b>Rhif y diwygiad</b>	<b>Dyddiad diwygio</b>	<b>Pwrpas y diwygiad a rhif y paragraff</b>	<b>Diwygiwyd gan</b>
1	Hydref 2013	Cyfeiriad y potelwr – paragraff 8	John Boodle
2	Ebrill 2016	Diweddarau'r manylion cyswllt	Graham Finch

## CYNNWYS

<b>HANES DIWYGIO .....</b>	<b>3</b>
<b>CYNNWYS .....</b>	<b>4</b>
<b>CYFLWYNIAD .....</b>	<b>5</b>
<b>CYNULLEIDFA DARGED.....</b>	<b>5</b>
<b>PWRPAS Y CANLLAWIAU .....</b>	<b>5</b>
<b>STATWS CYFREITHIOL Y CANLLAWIAU .....</b>	<b>5</b>
<b>ENW'R POTELWR .....</b>	<b>5</b>
<b>CYFEIRIAD AC AELOD-WLADWRIAETH.....</b>	<b>6</b>
<b>MAINT Y LLYTHRENNAU .....</b>	<b>6</b>
<b>RHAGDDODIAID .....</b>	<b>6</b>
<b>CODAU .....</b>	<b>6</b>
<b>ENGHREIFFTIAU .....</b>	<b>7</b>
<b>ADOLYGU .....</b>	<b>9</b>

## CYNULLEIDFA DARGED

2. Potelwyr cynnyrch y sector gwin a'r masnachwyr hynny sy'n comisiynu gwasanaeth potelu gan drydydd parti yn y DU.

## PWRPAS Y CANLLAWIAU

3. Paratowyd y canllawiau hyn i egluro gofynion cyfreithiol Rheoliad 607/2009 y Comisiwn ar gyfer gwin llonydd a gwin pefriog. Ni all y canllawiau hyn drin a thrafod pob sefyllfa a allai godi a gall fod angen ichi ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol ei hun i weld sut y mae'n berthnasol i chi. Os byddwch yn dilyn y canllawiau hyn, byddant yn eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith. Os oes gan fusnes ymholiadau penodol, gall ofyn am gyngor gan ei Arolygydd Gwin Rhanbarthol.

<http://www.food.gov.uk/business-industry/winestandards/contactinspectors>

## STATWS CYFREITHIOL Y CANLLAWIAU

4. Paratowyd y canllawiau hyn i egluro'r gofynion cyfreithiol o ran labelu manylion y potelwr a bennir yn Rheoliad 607/2009. Os byddwch yn dilyn y canllawiau hyn, byddant yn eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith.

## ENW'R POTELWR

5. Y potelwr yw'r person naturiol neu gyfreithiol neu'r grŵp o bobl o'r fath sy'n potelu gwin neu'n cael gwin wedi'i botelu ar ei ran ac yn llenwi cynwysyddion llai na 60 litr o faint neu'n comisiynu llenwi cynwysyddion o'r fath. Os bydd y gwasanaeth yn cael ei gomisiynu, rhaid bod y gwin yn eiddo i'r cwmni cyn iddo gomisiynu llenwi'r cynwysyddion. Gall enw'r potelwr fod yn enw busnes (cwmni cyfyngedig neu fel arall) neu'n enw unigolyn preifat.

Fodd bynnag, rhaid i'r enw a roddir fod yn enw busnes gwirioneddol neu'n enw person go iawn sy'n masnachu. Hefyd, ac eithrio mewn achosion penodol a gymeradwyir gan Safonau Gwin, dim ond un enw y gellir ei ddefnyddio i ddangos pwy yw'r potelwr sy'n gysylltiedig ag unrhyw ffatri lenwi benodol.

6. Os caiff gwin ei fewnforio mewn swmp o drydydd gwledydd a'i botelu yn yr UE, rhaid dangos manylion y mewnforiwr hefyd (fel arall, gellir defnyddio cod mewnforiwr a roddwyd gan Safonau Gwin). Gellir cyfuno'r manylion hyn os mai'r potelwr yw'r mewnforiwr hefyd (gweler enghraifft 3 isod).

## CYFEIRIAD AC AELOD-WLADWRIAETH

7. O ran gwin sy'n cael ei botelu yn yr Undeb Ewropeaidd, rhaid arddangos enw a chyfeiriad y potelwr yn yr un man gweledol â'r manylion gorfodol eraill (gweler enghraifft 1).
8. Rhaid mai **cyfeiriad prif swyddfa'r potelwr yw'r cyfeiriad a ddangosir**, a rhaid rhoi'r cyfeiriad ac "United Kingdom (UK)". Mae Safonau Gwin yn tybio bod y fformat a ganlyn yn foddhaol: "enw'r cwmni + tref + ardal weinyddol leol (e.e. Ceredigion a/neu god post) + UK".
9. Os nad yw'r gwin yn cael ei botelu ar safle'r potelwr a gomisiynwyd nac yn agos ato, rhaid rhoi cyfeiriad yr union leoliad lle cafodd y gwin ei botelu a rhaid rhoi manylion y potelwr hefyd. Os bydd gwin yn cael ei botelu mewn aelod-wladwriaeth arall, rhaid rhoi enw'r aelod-wladwriaeth honno, ynghyd â'r ardal weinyddol leol (neu'r cod post).

## MAINT Y LLYTHRENNAU

10. Rhaid defnyddio llythrennau o'r un teip a maint ar gyfer enw, cyfeiriad ac aelod-wladwriaeth y potelwr a'r man potelu. Os yw'r cyfeiriad yn cynnwys Enw Tarddiad Gwarchodedig neu Ddynodiad Daearyddol Gwarchodedig, ni chaiff fod yn fwy na hanner maint y geiriau "Wine" neu'r dynodiad daearyddol.

## RHAGDDODIAID

11. Rhaid rhoi gair neu ymadrodd cyn enw a chyfeiriad y potelwr sy'n dangos pwy yw'r cwmni. I wneud hyn, dylid rhoi "**Bottler**" neu "**Bottled by**" neu, ar gyfer cynwysyddion ac eithrio poteli, "**Packager**" neu "**Packaged by**". Os na wnaeth y potelwr lenwi'r potelu, dim ond comisiynu eu llenwi, dylid defnyddio'r termau "**Bottled for**" neu "**Packaged for**" (nid oes rhaid dangos manylion y sawl a lanwodd y poteli yn yr achos hwn).

Rhaid i'r termau hyn ymddangos mewn un o ieithoedd swyddogol y Gymuned. Rhaid i un o'r termau uchod ymddangos cyn enw'r potelwr (gweler enghraifft 2), oni bai fod term traddodiadol yn cael ei ddefnyddio sy'n dangos mai'r cynhyrchydd sydd wedi potelu'r gwin. Ceir cryn dipyn o dermau o'r fath, er enghraifft, 'Erzeugerabfüllung' a 'Mis en bouteille au château'. I gael mwy o gyngor, dylech gysylltu â'ch arolygydd lleol.

## CODAU SWYDDOGOL

12. Os yw enw neu gyfeiriad y potelwr yn cynnwys Enw Tarddiad Gwarchoddedig neu Ddynodiad Daearyddol Gwarchoddedig, gellir dangos manylion y potelwr ar ffurf cod. Yn yr un modd, os nad yw cwmni am ddangos manylion cwmni arall ar ei labeli am resymau masnachol, gall ddangos manylion y potelwr a/neu'r mewnforiwr ar ffurf cod.

(Sylwch – Mae rhai aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, yn caniatáu i enw a chyfeiriad y potelwr ymddangos ar ffurf cod. Rhaid dangos yr aelod-wladwriaeth ar ffurf byrfodd. Yn y Deyrnas Unedig, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn rhoi codau swyddogol os gwneir cais ysgrifenedig i'w cael. Gellir defnyddio'r codau hyn (sy'n dechrau gyda'r llythyren W) i gyfeirio at enw a chyfeiriad prif swyddfa'r potelwr a/neu'r mewnforiwr.)

Dylai unrhyw gwmni sydd am wneud cais i gael cod swyddogol gysylltu â'i arolygydd gwin lleol.

13. **Os bydd enw'r potelwr a/neu'r mewnforiwr yn ymddangos ar ffurf cod, rhaid dangos enw a chyfeiriad person arall sy'n ymwneud â dosbarthu'r cynnyrch, a rhaid rhoi ymadrodd cyn yr enw a'r cyfeiriad i egluro'r berthynas rhyngddo a'r gwin e.e. 'Distributed by' neu 'Selected and distributed by' (gweler enghraifft 3).**

## ENGHREIFFTIAU

1. **POTELWR GWIRIONEDDOL** (sy'n berchen ar y gwin pan fydd yn cael ei botelu)

a. **Gwin o'r Gymuned Ewropeaidd**

*"Bottler" NEU "Bottled by: XYZ Bottling Ltd, (cyfeiriad), cod post, United Kingdom NEU UK"*

**NODYN PWYSIG**

- I. Os yw'r cwmni'n potelu'r gwin ar safle ac eithrio safle ei brif swyddfa neu safle sy'n agos iawn ati, rhaid dangos yr union leoliad lle cafodd y gwin ei botelu drwy ychwanegu "at (cyfeiriad), cod post, United Kingdom NEU UK".

b. **Gwin o drydedd wlad**

*"Importer and bottler" NEU "Imported and bottled by XYZ Bottling Ltd, (cyfeiriad llawn yn ddewisol), United Kingdom NEU cod post, UK"*

**Gweler nodyn pwysig 1(a) uchod hefyd.**

2. **POTELWR DAN GONTRACT** (Nid yw'r gwin yn eiddo i'r potelwr / pecynnwr ond i'r sawl sy'n comisiynu'r gwasanaeth potelu.)

a. **Gwin o'r Gymuned Ewropeaidd**

(a) - ***“Bottled for (enw cwmni perchennog y gwin + cyfeiriad y brif swyddfa), cod post, United Kingdom NEU UK”***

NEU

(b) – ***“Bottled for (enw cwmni perchennog y gwin + cyfeiriad y brif swyddfa), United Kingdom NEU UK, by..... (enw'r potelwr ei hun a chyfeiriad ei brif swyddfa), cod post, United Kingdom NEU UK”***

Gweler nodyn pwysig 1(a) uchod hefyd.

b. **Gwin o drydedd wlad**

Os yw'r gwin yn cael ei fewnforio a'i botelu gan wahanol gwmnïau

(a) - ***“Importer” NEU “Imported by PQR plc, (cyfeiriad), neu god post, United Kingdom (neu UK)”***

***“Bottler” NEU “Bottled by (enw'r cwmni (cyfeiriad), cod post, United Kingdom (neu UK))”***

Gweler nodyn pwysig 1(a) uchod hefyd.

(b) – Os yw cwmni (XYZ) Ltd wedi mewnforio'r gwin a'i werthu mewn swmp i gwmni arall (PQR Ltd) a'i fod yntau yn ei dro wedi gofyn i botelwr ei botelu ar ei ran o dan gontract

***“Importer” NEU “Imported by XYZ Ltd (cyfeiriad) cod post, United Kingdom (neu UK) and bottled for PQR Ltd (cyfeiriad) cod post, United Kingdom (neu UK)...***

ac yna naill ai ***“by A Bottler Ltd (cyfeiriad), cod post, United Kingdom (neu UK)”***

neu ***“at (a'r cyfeiriad lle cafodd ei botelu)”***

Gweler nodyn pwysig 1(a) uchod hefyd.

c) – Os yw'r un cwmni'n mewnforio ac yn potelu'r gwin

***“Importer” NEU “Imported and bottled by XYZ Ltd (cyfeiriad) cod post, United Kingdom (neu UK)”***



### 3. **OS DEFNYDDIR CODAU POTELWR / MEWNFORIWR**

**l'ch atgoffa** : Dim ond drwy gyflwyno cais ysgrifenedig i'r ASB y gallwch gael codau potelwr swyddogol

Os defnyddir codau, **rhaid** dangos enw a chyfeiriad rhywun arall sy'n ymwneud â dosbarthu'r cynnyrch hefyd, a rhaid rhoi ymadrodd cyn yr enw a'r cyfeiriad sy'n egluro'r berthynas rhyngddo a'r gwin e.e. 'Distributed by' neu 'Selected by'.

#### a. **Gwin o'r Gymuned Ewropeaidd**

***“Bottler” neu “Bottled by W1068 UK”***

Os defnyddir codau, rhaid rhoi manylion y person / cwmni sy'n ymwneud â dosbarthu'r gwin hefyd e.e. – ***“Distributed by ABC Ltd, (cyfeiriad), cod post, United Kingdom (neu UK)”***.

#### **NODYN PWYSIG**

**1(a) Os yw cwmni W1068 yn potelu'r gwin ar safle ac eithrio safle ei brif swyddfa, rhaid dangos yr union leoliad lle cafodd y gwin ei botelu drwy ychwanegu**

***“at (cyfeiriad) cod post, United Kingdom (neu UK)”***.

#### b. **Gwin o drydedd wlad**

(a)- ***“Imported by W1234, UK and bottled by W3456, UK”***

(Sylwch – mae dau gwmni gwahanol yn rhan o'r broses hon.) Os defnyddir codau, rhaid rhoi manylion y person / cwmni sy'n ymwneud â dosbarthu'r gwin hefyd e.e. – ***“Distributed by ABC Ltd, (cyfeiriad), cod post, United Kingdom (neu UK)”***.

**Gweler nodyn pwysig 1(a) uchod hefyd.**

(b)- ***“Imported and bottled by W1234, UK”*** (Sylwch – yr un cwmni sy'n mewnfurio'r gwin mewn swmp ac yn potelu'r gwin) ***“and Distributed by ABC Ltd, (cyfeiriad), cod post, United Kingdom (neu UK)”***.

**Gweler nodyn pwysig 1(a) uchod hefyd.**

## ADOLYGU

14. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu yn 2018. Yn y cyfamser, os hoffech roi adborth, anfonwch e-bost at:  
[winestandards@foodstandards.gsi.gov.uk](mailto:winestandards@foodstandards.gsi.gov.uk)